General Optical Council

**RHEOLAU FFIOEDD COFRESTRU 2023-2024**

Bydd y ffi a ddangosir ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024 yn cyd-fynd â phob cais sy'n dod o fewn categori a nodir yn y tabl isod:

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol** | **Ffi 23/24** |
|---|---|
| Ffi adnewyddu blynyddol<br>Cais am adnewyddiad blynyddol o gofrestriad yn y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br>ar gyfer y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024 a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2024 | £380 |
| Ffi adnewyddu flynyddol i enillwyr incwm isel[1]<br>Cais am adnewyddiad blynyddol o gofrestriad yn y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2023 ac yn diweddu ar 31 Mawrth 2024<br>ceisiadau a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Mawrth 2024**.** | £260 |
| Cais am adnewyddiad blynyddol yn y gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau 1 Medi 2023 ac yn diweddu ar 31 Awst 2024 a dderbyniwyd ar neu cyn 31 Awst 2023. | £30 |

| **Ceisiadau i adnewyddu cofrestriad yn flynyddol wrth gofnodi, trosglwyddo neu adfer i'r gofrestr** | **Ffi 23/24** |
|---|---|
| Ffi adnewyddu flynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2024, cyfradd pro rata yn seiliedig ar y dyddiad y'i cofnodwyd ar gofrestr:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau | £95.00 y chwarter neu ran o hynny |

[1] diffinnir enillydd incwm isel fel ymgeisydd cymwysedig unigol neu unigolyn cofrestredig yr amcangyfrifir bod cyfanswm ei incwm unigol yn is na £16,000 ar gyfer y flwyddyn ganlynol 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024.

| Ceisiadau i Gofrestru | Ffi 23/24 |
|---|---|
| Cais cychwynnol i'w gofnodi ar y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau<br>gan gynnwys enillwyr incwm isel. | £75 |
| Cais i gofrestru yn y gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr am y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2023 ac sy'n dod i ben ar 31 Awst 2024. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais am gofrestru. | £30 |
| Cais i gofnodi arbenigedd yn y gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. | £40 |

| Ceisiadau i drosglwyddo cofrestriad | Ffi 23/24 |
|---|---|
| Cais i drosglwyddo rhwng cofrestri llawn ar gyfer y cyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 23 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 24. | £40 |
| Cais i drosglwyddo o'r gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr i'r gofrestr o optometryddion neu o'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar ôl cwblhau llwybr cofrestru achrededig GOC. | £40 |

| Ceisiadau i adfer cofrestriad | Ffi 23/24 |
|---|---|
| Cais cychwynnol i gael ei adfer ar y gofrestr o:<br>• Optometryddion<br>• Optegwyr cyflenwi<br>• Cyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi neu'r ddau gan gynnwys enillwyr incwm isel. | £75 |
| Cais i adfer i'r gofrestr o optometryddion sy'n fyfyrwyr neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi sy'n fyfyrwyr ar ôl tynnu neu ddileu oddi ar y cofrestrau am y flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Medi 2023 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2024. Ni chodir ffi adnewyddu flynyddol am y flwyddyn y maent yn gwneud cais i gofrestru. | £30 |

| Ceisiadau am Dystysgrifau o Statws Proffesiynol Cyfredol | Ffi 23/24 |
|---|---|
| Cais am dystysgrif statws proffesiynol cyfredol. | £25 |

| **Ceisiadau am asesiad o gymwysterau a enillwyd o'r tu allan i'r DU i gael eich cynnwys ar y gofrestr o optegwyr cyflenwi neu optometryddion** | **Ffi 23/24** |
|---|---|
| Ffi graffu ar gyfer prosesu dogfennaeth ar gyfer ceisiadau ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi. | £125 |
| I'r rhai sydd wedi pasio'r cam craffu ac sydd angen asesiad cyfwerthedd, codir ffi am:<br>Asesu cywerthedd cymwysterau a phrofiad ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n dymuno ymuno naill ai â'r gofrestr o optometryddion neu'r gofrestr o optegwyr cyflenwi. Codir ffi ar wahân am bob cofrestr y gwneir cais iddi. | £450 |
| Ffi cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE (dyma gost cyfweliad ffôn rhwng yr ymgeisydd ac aseswyr y GOC) | £200 |

**Dr Anne Wright CBE**

Cadeirydd y Cyngor

**Leonie Milliner**

Prif Weithredwr a Chofrestrydd